Gwanwyn 2023

# Cylchlythyr Cymunedol

Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (VIP)



## Croeso a chyflwyniad i'r prosiect



**Steve Ellison**

Uwch Reolwr Prosiect, National Grid

**Helo a chroeso i'n cylchlythyr cymunedol diweddaraf. Bydd 2023 yn flwyddyn arwyddocaol i'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol ym Mharc Cenedlaethol Eryri.**

Y llynedd, fe wnaethom ddechrau ar waith cynnar y prosiect ac, ar ôl ei gwblhau, bydd deg peilon a thua 3km o linell uwchben yn cael eu tynnu'n barhaol o Aber Afon Dwyryd. Eleni, byddwn yn dechrau gweithio ar ein safleoedd yn Garth ac yn Llandecwyn, gan ddechrau adeiladu'r siafftiau a fydd yn arwain at y twnnel newydd yn ddwfn o dan y ddaear.

Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwch yn dechrau gweld mwy a mwy o'n tîm yn yr ardal leol. Bydd ein timau'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ymchwiliadau tir pellach, a byddant yn adeiladu'r gwahanol elfennau a fydd yn ffurfio ein prif safleoedd adeiladu yn Garth ac yn Llandecwyn.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl ein bod ni, gyda'n contractwyr a'n his-gontractwyr, yn ceisio gwneud y gwaith gan darfu cyn lleied â phosibl ar drigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal. Drwy gydol y gwaith adeiladu, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod trigolion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i helpu'r gymuned leol lle gallwn ni. Edrychwch ar yr wybodaeth yn y cylchlythyr hwn am ein Rhaglen Grantiau Cymunedol sy'n cynnig cymorth ariannol i grwpiau lleol ar gyfer prosiectau cymunedol.



Heddiw



Ar ôl eu tynnu

## Pam fy mod yn gyffrous am y prosiect hwn

"Rwy'n falch iawn fod prif waith adeiladu'r prosiect wedi dechrau. Mae'r cynlluniau cyffrous wedi cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, partneriaid lleol a'r gymuned dros nifer o flynyddoedd ac maen nhw nawr yn cael eu gwireddu.

"Bydd yr effaith yn drawsnewidiol ac, ar ôl ei gwblhau tua diwedd y 2020au, bydd trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd yn gallu mwynhau gogoniant Aber Afon Dwyryd heb ei difetha am y tro cyntaf ers cenedlaethau.

"Rydw i wedi gweld y gwaith mae National Grid wedi'i wneud ar gynlluniau VIP yn Dorset a'r Peak. Mae'n rhagorol ac rwy'n hyderus y bydd yr un safonau uchel o ofal ar gyfer yr amgylchedd a meddwl arloesol yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru."



**Chris Baines**

Amgylcheddwr a darlledwr

Cadeirydd Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid VIP Annibynnol y National Grid

nationalgrid

# Popeth ar waith

**Ar ôl blwyddyn brysur yn 2022, rydyn ni wedi cynyddu ein gweithgarwch yn Garth ac yn Llandecwyn ers dechrau 2023 a bydd hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn.**

Ym mis Chwefror, fe wnaethom ddechrau gosod prif gompownd y safle yn Garth. Dyma fydd lleoliad swyddfeydd y prosiect (ar hyn o bryd rydyn ni'n defnyddio swyddfeydd dros dro yn Nhrawsfynydd) a chanolfan wybodaeth ein prosiect.

Dyma hefyd fydd safle lansio'r peiriant tyllu twnnel a lleoliad yr offer a fydd yn prosesu'r deunydd y byddwn yn ei dynnu allan o'r ddaear wrth adeiladu'r siafftiau a'r twnnel.

# Nadroedd a madfallod yn Llandecwyn

**Bydd y safle a fydd yn cael ei sefydlu yn Llandecwyn yn llawer llai na'r safle yn Garth ac, yn ei hanfod, bydd yn cynnwys ffordd i'r ardal lle byddwn yn adeiladu tŷ pen twnnel.**



Gan weithio ar gyngor gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ecolegwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru, cynhaliodd Atmos, sef ein contractwr amgylcheddol, arolygon o ymlusgiaid a chafodd unrhyw ymlusgiaid y daethom o hyd iddynt y tu allan i ffin ein safle eu symud i lochesi sydd wedi'u hadeiladu'n arbennig gerllaw.

Mae ffensys arbennig yn eu hatal rhag mynd yn ôl i mewn i'r safle wrth i ni weithio, er mwyn eu hamddiffyn. Roedden ni'n falch iawn o'r amrywiaeth o rywogaethau y daethom ar eu traws, gan gynnwys gwiber, neidr y gwair a llyngyr main, yn ogystal â madfallod cyffredin, madfallod dŵr a madfallod dŵr balfog.

## Beth sydd ar y safle yn Garth?


**Mae'r diagram yn dangos y gwahanol elfennau sy'n ffurfio compownd y safle yn Garth. Bydd angen llawer o ddŵr ffres i weithredu'r peiriant tyllu twnnel ac i gludo'r deunydd rydyn ni'n ei gloddio gyda'r dril yn ôl i'r wyneb ar ffurf slyri.**

Rydyn ni'n ailddefnyddio'r dŵr, a dyna pam mae angen y pedwar pwll trin dŵr a'r pyllau setlo y gallwch chi eu gweld ar ymyl chwith y safle.

Mae'r seilos yng nghanol y safle ar gyfer prosesu'r slyri, gwahanu'r dŵr oddi wrth y deunydd sydd wedi'i gloddio, ei lanhau a'i baratoi ar gyfer ei gyrchfan yn y pen draw. Byddwn yn gwybod mwy am ble rydyn ni'n bwriadu ailddefnyddio'r deunydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn a byddwn yn cynnwys yr wybodaeth hon yn ein cylchlythyr nesaf, gan ein bod yn gwybod ei fod yn fater pwysig i'r gymuned.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ailddefnyddio cymaint o'r deunydd â phosibl ac mae gennym hanes rhagorol o wneud hyn ar brosiectau twnelu eraill.

### Cynllun Safle Garth




# Yn y Gymuned...

## Diolch i chi am alw heibio

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol wedi bod yn rhan bwysig o'n gwaith ers dechrau yn 2015. Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad galw heibio ychwanegol i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd, un yn Nhalsarnau ac un ym Mhenrhyndeudraeth.

Roedd hi'n wych gweld cynifer o bobl leol yn dod draw. Gwnaethom fwynhau dysgu mwy am yr agweddau ar ein gwaith sydd o'r budd mwyaf i'r gymuned. Cawsom lawer o gwestiynau am ddaeareg yr ardal leol, sut byddwn yn tyllu'r twnnel a fydd yn gartref i'r ceblau newydd, yn ogystal â sut byddwn yn ailddefnyddio'r deunydd rydyn ni'n ei godi o'r twnnel a'r siafftiau.

Roedd cryn ddiddordeb hefyd mewn cyfleoedd gwaith posibl i'r bobl leol ac yn y gadwyn


Sesiwn galw heibio cyhoeddus yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth

gyflenwi, yn ein Rhaglen Grantiau Cymunedol ac yn y dyluniad arloesol a phriodol rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer y tai pen twnnel.

Roedd hi'n arbennig o werthfawr i ni siarad â rhai o gymdogion agosaf y safle, i wrando ar eu pryderon ac i roi sicrwydd ynghylch ein safonau uchel o ran lleihau unrhyw darfu sy'n deillio o'n gwaith adeiladu.

### Ymrwymiad i ailddefnyddio

Mae National Grid wedi ymrwymo i reoli'r deunyddiau gwastraff sy'n deillio o'r gwaith o greu'r siafftiau a'r twnnel yn gyfrifol ac yn ddiogel. Yn ein prosiect VIP yn y Peak District, fe wnaethom lwyddo i ailddefnyddio neu ailgylchu dros 99% o ddeunydd gwastraff. Rydyn ni'n anelu at rywbeth tebyg ar brosiect Eryri.

## Diogelwch yn gyntaf

Bydd llawer ohonoch chi wedi sylwi ein bod wedi cau rhan o'r lôn gefn i Finffordd rhwng yr A497 a Lôn y Chwarel.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy sganio'r cod QR:

Hoffem ymddiheuro am unrhyw anhwylustod a achosir a diolch i chi am eich amynedd yn ystod ein gwaith.

## Yn galw ar weithwyr a chontractwyr lleol

Mae National Grid a Hochtief UK wedi ymrwymo i weithio mewn cymunedau lleol a defnyddio llafur a chyflenwyr lleol cymaint ag y bo modd.

Bydd angen contractwyr arbenigol iawn ar gyfer rhywfaint o'r gwaith ar y prosiect, ac efallai na fyddant ar gael yn lleol.

Fodd bynnag, bydd cyfleoedd i fusnesau lleol dendro am waith gyda ni a bydd cyfleoedd anuniongyrchol eraill yn y gadwyn gyflenwi hefyd.

Byddwn yn cynnal Diwrnod Cwrdd â'r Prynwr yr haf hwn ym Mhenrhyndeudraeth, lle gall y gymuned fusnes leol ddod draw i gael gwybod mwy am rai o'r cynnyrch a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnom yn ystod y prosiect. Cadwch lygad am ragor o fanylion ar ein gwefan neu yn y wasg leol.

### Cymdeithas Eryri – ail-ymgysylltu â'r dirwedd

Derbyniodd Cymdeithas Eryri grant gwerth £20,000 gan y Rhaglen Grantiau Cymunedol i ddatblygu digwyddiadau a phrofiadau sy'n ymgysylltu'r cyhoedd â thirwedd Eryri.

Bydd y cyllid yn mynd tuag at ddarparu digwyddiadau gwirfoddoli, teithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau celf a cherddoriaeth mwy cynhwysol yn ogystal â newid ymddygiad sy'n bygwth cynefinoedd a bioamrywiaeth yn yr ardal, drwy wella dealltwriaeth.



# Yn y Gymuned...

## Ymwelwyr â Phrosiect VIP Eryri

Ddydd Gwener 14 Hydref 2022, bu 12 cynrychiolwr o Gymdeithasau Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr yn ymweld ag Aber Afon Dwyryd i weld y peilonau y bwriedir eu tynnu.

Roedd y trip a drefnwyd gan Gymdeithas Eryri yn rhan o Gynhadledd Flynyddol Cymdeithasau Parciau Cenedlaethol a gynhaliwyd eleni yng Nghanolfan Awyr Agored Plas y Brenin yng Nghapel Curig.

Cynhaliodd Steve Ellison, sef Uwch Reolwr Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, daith dywys o amgylch aber yr afon, gan stopio mewn nifer o leoliadau i weld y peilonau a thrafod agweddau allweddol ar y prosiect. Hefyd, rhoddodd Steve araith yn y gynhadledd ar y prosiect VIP ehangach a chynllun Eryri yn benodol.


Cynrychiolwyr o Gymdeithasau Parciau Cenedlaethol ger Aber Afon Dwyryd

## Rhaglen Grantiau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Grantiau Cymunedol wedi'i hanelu at fudiadau cymunedol ac elusennau mewn ardaloedd lle mae gwaith National Grid yn effeithio ar bobl leol drwy ein gweithgareddau ar y safle – gan gefnogi prosiectau a fydd o fudd i gymunedau yn yr ardal leol.

**A allai eich grŵp chi elwa?**
**Os ydych chi'n gwybod am brosiect sy'n bodloni ein meini prawf, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.**

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais a sut mae gwneud hynny – **www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme**

## Cefnogi gwyddonwyr ar ddechrau eu gyrfa

Ym mis Tachwedd, cawsom y fraint o noddi nawfed rhifyn cynhadledd flynyddol Rhwydwaith Ecoleg ac Esblygiadau Cymru. Nod y digwyddiad sy'n cael ei gynnal gan fyfyrwyr yw hyrwyddo ymchwil ôl-radd ac mae'n llwyfan rhwydweithio ar gyfer gwyddonwyr sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd ym mhrifysgolion Cymru.

Mae'r gynhadledd, sy'n dibynnu ar grantiau a noddwyr trydydd parti, wedi cael ei chynnal yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth ers 2017 ac mae'n adnabyddus am ei gwaith ar ynni gwyrdd a chynaliadwyedd. Roedd y digwyddiad eleni yn cynnwys araith mewn partneriaeth â Rhwydwaith Ymchwil Cymru i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd, sgyrsiau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru, yn ogystal â theithiau o'r safle a digwyddiadau cymdeithasol. Llongyfarchiadau i bawb a oedd yn rhan o lwyddiant ysgubol y digwyddiad.



# Cysylltu

Rydym wedi ymrwymo i ddiweddaru drwy gydol y gwaith adeiladu gan fwriadu anfon cylchlythyrau allan yn rheolaidd i ddiweddaru pobl leol am ein cynnydd. Ond rydym bob amser yn awyddus i glywed gennych.

Gallwch gysylltu drwy ffonio **0330 134 0051**

ysgrifennu at **Freepost VISUAL IMPACT PROVISION**

neu anfon e-bost at **visualimpact@nationalgrid.com**

Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar ein gwefan yn:
**www.nationalgrid.com/eryrivip**

Ailgylchwch os gwelwch yn dda